



Yr Athro Mick Waters

Mae'r Athro Mick Waters yn athro cyswllt yn y Ganolfan Ymchwil Ddatblygiadol a Chymhwysol ym Mhrifysgol Wolverhampton. Cyn hyn, bu Mick yn Gyfarwyddwr Cwricwlwm yn Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm Lloegr lle chwaraeodd rôl flaenllaw wrth helpu ysgolion i ailystyried eu dull o ddylunio'r cwricwlwm a dylanwadu ar bolisi cenedlaethol ar agweddau ar y cwricwlwm cenedlaethol.

Gweithiodd Mick hefyd i Ddinas Manceinion fel Prif Swyddog Addysg. Mae hefyd wedi gweithio i Awdurdod Addysg Lleol Birmingham gan hyrwyddo agenda i wella ysgolion.

Mae gan Mick brofiad o fod yn bennaeth mewn dwy ysgol ac o weithio ym maes addysg athrawon, ac mae'n awdur nifer o lyfrau addysgol. Yn ogystal, fe arweiniodd y grŵp gorchwyl a gorffen a aeth i'r afael â'r adolygiad o gyflog ac amodau athrawon yng Nghymru.



Rhian Ellis

Rhian Morgan Ellis yw pennaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn Rhondda Cynon Taf. Yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru 2019, enillodd wobr Pennaeth y Flwyddyn.

Mae Rhian wedi bod yn gweithio yn y proffesiwn ers 35 o flynyddoedd ac wedi gweithio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda am 30 o flynyddoedd. Mae wedi gweithio'n ddiflino i greu ysgol ddwyieithog a chynhwysol lwyddiannus ac mae'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru yn ganolog i'w gweledigaeth a'i gyrfar.



Joysy John

Joysy John yw'r Cyfarwyddwr Addysg yn Nesta, rôl sy'n dwyn gwaith addysg Nesta ynghyd ar draws rhaglenni arloesi, ymchwil a buddsoddiad. Joysy oedd Prif Swyddog Diwydiant Ada, sef y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Sgiliau Digidol lle arweiniodd waith ymgysylltu'r Coleg â diwydiant a'i wefan dysgu ar-lein.

Mae Joysy yn teimlo'n angerddol am addysg, entrepreneuriaeth a grymuso merched ac mae wedi helpu i lansio tri chorff dielw sy'n canolbwyntio ar addysg.

Mae gan Joysy radd (Anrhydedd) mewn Peirianeg Gyfrifiadurol o Brifysgol Dechnolegol Nanyang, Singapore a gradd MBA â Rhagoriaeth o Ysgol Fusnes Llundain lle bu'n Llywydd y Clwb Merched mewn Busnes ac yn Ysgolor Forte.



Yr Athro y Fonesig Alison Margaret Peacock, DBE DL FRSA

Yr Athro y Fonesig Alison Peacock yw Prif Weithredwr y Coleg Addysgu Siartredig, Corff Proffesiynol newydd sy'n ceisio codi ein statws drwy ddathlu, cefnogi a chysylltu athrawon er mwyn iddynt ddarparu addysgu ac arweinyddiaeth arbenigol. Cyn ymuno â'r Coleg Siartredig, bu'r Fonesig Alison yn Bennaeth Gweithredol yn Ysgol Wroxham yn Swydd Hertford.

Mae ei gyrfa hyd yma wedi rhychwantu rolau cynradd, uwchradd ac ymgynghorol.

Mae hi'n Gymrawd Anrhydeddus o Goleg y Breninesau Caergrawnt, yn aelod o Bwyllgor Addysg y Gymdeithas Frenhinol, ac yn Athro Gwadd Prifysgol Swydd Hertford a Phrifysgol Glyndŵr. Mae ei gwaith ymchwil wedi'i gyhoeddi mewn cyfres o lyfrau o'r enw *Learning without Limits*, sy'n cynnig ffordd amgen o wella ysgolion cynhwysol.



Dr Dafydd Trystan

Dr Dafydd Trystan Davies yw Cofrestrydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac ef sy'n gyfrifol am waith y Coleg yn y sector Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Mae hefyd yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Hamadryad, sy'n Ysgol Gymunedol Gymraeg newydd, fel rhan o raglen ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru. Caiff yr ysgol newydd ei hystyried yn fodel enghreifftiol o Deithio Cynaliadwy i'r ysgol.

Mae'n Gadeirydd Hyfforddiant Beicio Cymru a Rhedeg Cymru a bu'n aelod o fwrdd Sustrans Cymru. Mae hefyd yn un o Gyfarwyddwyr TooGoodToWaste.

Cyn hyn, bu Dafydd yn ddarlithydd ym maes Gwleidyddiaeth Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth ac mae wedi bod yn Brif Weithredwr ac yn Gadeirydd Plaid Cymru. Mae hefyd yn aelod o bwyllgor llywio Ewropeaidd y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol.